Adroddiad Materion yn Codi ar gyfer Cyngor Cymuned Penmynydd a Star Archwiliad ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

Cyflwyniad

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi i dynnu sylw Cyngor Cymuned Penmynydd a Starat eitemau. Daeth y materion hyn i sylw BDO LLP yn ystod archwiliad y ffurflen flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

Efallai na fydd archwiliad y ffurflen flynyddol yn datgelu pob gwendid yn y systemau gan ei bod yn bosibl na fydd pob mater wedi dod i sylw'r archwilydd. Oherwydd hyn, efallai nad y materion a godwyd yw'r unig rai sy'n bodoli.

Mae'r materion a restrir isod yn cael eu hesbonio'n fanylach ar y dudalen/y tudalennau sy'n dilyn

Materion a godwyd

- Argymhellion yr Archwilydd Mewnol

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi er mwyn helpu'r Cyngor. Argymhellir bod y Cyngor yn gweithredu ar y materion canlynol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn ei fframwaith statudol.

Argymhellion yr Archwilydd Mewnol

Beth yw'r mater?

Mae'r archwilydd mewnol wedi nodi rhai gwendidau yn systemau ariannol y cyngor.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Mae'r cyngor yn agored i'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwendidau hyn.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Rhaid i'r cyngor weithredu'r argymhellion gafodd eu gwneud gan yr archwilydd mewnol i wella systemau ariannol y cyngor cyn gynted â phosibl neu o leiaf cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

Os bydd y cyngor yn mynd i'r afael â'r materion gafodd eu codi gan yr archwilydd mewnol dylai'r cyngor wella rheolau mewnol fydd yn helpu i atal a chanfod gwallau a thwyll gan helpu'r cyngor i weithredu mewn modd effeithiol ac effeithlon.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr, Un Llais Cymru/CCCLl

Ni ddaeth unrhyw faterion eraill i'n sylw.

Dros ac ar ran
BDO LLP

Dyddiad:15 Tachwedd 2020